# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 18 Hydref 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, S.A. Curry, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, D. Jones, A. Lenny, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.D.J. Phillips, J.G. Prosser and J.E. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 am - 12.15 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C. Jones, H.I. Jones a G.B. Thomas.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| J. Prosser | 4.1 Cais Cynllunio - S/37325 - Gosod grisiau newydd a ramp yn lle'r grisiau presennol i'r drws gorllewinol i ganiatáu mynediad i gadeiriau olwyn i'r Eglwys yn Eglwys Sant Ellis, Stryd y Bont, Llanelli, SA15 3UF | Mae'n aelod o Gyngor Tref Llanelli ac mae wedi bod yn rhan o'r trafodaethau ynghylch y cais hwn. |
| J. Gilasbey | 4.2 Cais Cynllunio - S/37693 - Amrywio amod rhif 3 (bydd yr eiddo yn cael ei ddefnyddio yn unig at ddibenion storio esgidiau) S/36969 er mwyn caniatáu i gwsmeriaid allu casglu trwy apwyntiad yn unig yn 21 Park View Drive, Cydweli, SA17 4UP | Mae hi'n un o Ymddiriedolwyr Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli ac mae'r gwrthwynebydd yn un o'r Ymddiriedolwyr hefyd, ac felly maent yn adnabod ei gilydd. |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor allu ymweld â'r safle:-**

| | |
|---|---|
| E/34791 | **Bydd y datblygiad tyrbinau gwynt arfaethedig ym Mryn Bugail yn cynnwys tyrbin gwynt sengl, a fydd yn gallu cynhyrchu hyd at 100kw gyda'r tyrbin yn mesur 37 metr hyd at uchder y both, gyda diamedr rotor o 24 metr, gan greu uchder llafn cyffredinol o hyd at 49 metr. Byddai'r tyrbin gwynt wedi'i leoli mewn cae sydd ar hyn o bryd yn cael ei defnyddio ar gyfer pori a gall y defnydd hwn barhau gyda'r tyrbin gwynt yn bresennol ar dir ym Mryn Bugail, Caerfyrddin, SA32 7JX**<br><br>Derbyniwyd cais ar gyfer y Pwyllgor i gynnal ymweliad â'r safle er mwyn galluogi'r Pwyllgor i weld y safle yng ngoleuni'r pryderon a godwyd ynghylch effaith y datblygiad arfaethedig ar yr ardal a'r effaith bosibl ar eiddo cyfagos.<br><br>Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio, roedd y gwrthwynebwyr a oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch y cais hwn wedi dewis cyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod a fydd yn dilyn yr ymweliad â'r safle.<br><br>**RHESWM:** I weld safle'r datblygiad arfaethedig ar y cyd â Pholisi SP14 – Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Naturiol. |

**4. RHANBARTH Y DRE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**4.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio:-**

| | |
|---|---|
| S/37325 | **Gosod grisiau newydd a ramp yn lle'r grisiau presennol i'r drws gorllewinol i ganiatáu mynediad i gadeiriau olwyn i'r Eglwys yn Eglwys Sant Ellis, Stryd y Bont, Llanelli, SA15 3UF**<br><br>[Sylwer: Gan ei fod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd J. Prosser Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno].<br><br>Tynnodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) sylw at y newidiadau fel y'u hamlinellwyd yn yr atodiad. |
| S/37581 | **Cais amlinellol am ddatblygiad preswyl ar dir yn Llwyncyfarthwch, Llanelli, SA15 1GY** |

**4.2 PENDERFYNWYD caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad/atodiad y Pennaeth Cynllunio:-**

| | |
|---|---|
| **S/37693** | **Amrywio amod rhif 3 (bydd yr eiddo yn cael ei ddefnyddio yn unig at ddibenion storio esgidiau) S/36969 er mwyn caniatáu i gwsmeriaid allu casglu trwy apwyntiad yn unig yn 21 Park View Drive, Cydweli, SA17 4UP**<br><br>[Sylwer: Gan ei bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd J. Gilasbey Siambr y Cyngor cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno].<br><br>Cafwyd sylw a wrthwynebai'r cais ac a oedd yn ail-bwysleisio'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio, gyda'r prif bwyslais ar y pwyntiau canlynol:-<br><br>• Pan oedd y cais cynllunio blaenorol ar gyfer storio B8 yn cael ei ystyried rhoddwyd sicrwydd na fyddai cwsmeriaid yn cael galw ar y safle.<br><br>• Diogelwch y ffyrdd – nid oes unrhyw fanylion ynghylch y trefniadau parcio ar gyfer cwsmeriaid.<br><br>• Byddai angen ystyried y symudiadau traffig ychwanegol yn yr ardal, gan gynnwys y caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd yn ddiweddar ar gyfer datblygiad preswyl pellach ar dir cyfagos. Ardal breswyl yw Park View Drive ac mae'r cynllun ffyrdd yn adlewyrchu hyn.<br><br>• Byddai yna anawsterau gyda'r trefniant gyrru allan a gynigir oherwydd aliniad yr allanfa, a byddai hefyd yn gwrthdaro â'r ardal casglu/gollwng ar gyfer gwarchodwyr plant.<br><br>• Ni ddylai amseroedd casglu i gwsmeriaid gael eu caniatáu rhwng 8am a 10am a 3pm a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener, gan y byddai hyn yn gwrthdaro â symudiadau cerbydau gwasanaeth gwarchod plant (eiddo'r cymdogion).<br><br>• Yr ardal ar y chwith y tu mewn i'r garej yw'r ardal fwyaf priodol ar gyfer pwynt casglu, ac nid yr ardal a ddangosir. Mae'n amlwg mai'r nod yw gwerthu cymaint â phosibl, a byddai hynny'n golygu mai'r dosbarth defnydd mwyaf priodol yw A1.<br><br>Ymatebodd yr ymgeisydd ac Uwch-swyddog Rheoli Datblygu [Rhanbarth y De] i'r materion a godwyd. |

| | |
|---|---|
| **S/37793** | **Estyniad i safle carafanau Sipsiwn awdurdodedig i wneud lle i ddwy garafán breswyl statig ychwanegol i Sipsiwn ynghyd â chodi dwy ystafell ddydd/cyfleustodau, dwy garafán deithiol, gosod tanc septig a chadw gwaith i greu wyneb caled a mynediad newydd ar dir yn Tŷ Newydd, Llwyn Teg, Llannon, Llanelli, SA14 8JN**<br><br>[Sylwer: ni chefnogwyd ceisiadau a gyflwynwyd yn gofyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle ar y sail nad oedd y rhesymau am ymweliad safle yn rhesymau dilys a bod yr adroddiad/atodiad, ynghyd â'r sleidiau PowerPoint, yn rhoi digon o fanylion i wneud penderfyniad ynghylch y cais.]<br><br>Tynnodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) sylw at y newidiadau fel y'u hamlinellwyd yn yr atodiad.<br><br>Cafwyd sylw gan yr Aelod lleol yn gwrthwynebu'r cais ac yn codi pryderon ynghylch y ffordd anaddas ar gyfer cerbydau ychwanegol a diogelwch y ffyrdd.<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y De) i'r materion a godwyd. |

5. **RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle:-**

| | |
|---|---|
| **W/37263** | **Adeiladu un annedd ar Lain 4, Heol Drefach, Plasydderwen, Meidrim, Sir Gaerfyrddin**<br><br>Derbyniwyd cais ar gyfer y Pwyllgor i gynnal ymweliad safle er mwyn galluogi'r Pwyllgor i weld y safle yng ngoleuni'r pryderon a godwyd ynghylch effaith y datblygiad arfaethedig ar yr ardal. Yn ogystal, byddai Ymweliad Safle yn galluogi'r Pwyllgor i ystyried cymeriad/ymddangosiad y datblygiad arfaethedig mewn cydberthynas ag eiddo yn yr ardal gyfagos.<br><br>**RHESWM:** Gweld safle'r datblygiad arfaethedig mewn perthynas â Pholisi GP1 – cynaliadwyedd a dyluniad o ansawdd uchel, sydd hefyd yn ceisio sicrhau bod datblygiadau yn cydymffurfio â chymeriad ac ymddangosiad y safle ac yn eu gwella. |

| | |
|---|---|
| **W/36131** | **Newid defnydd rhannol arfaethedig i ardal fach mewn ffatri/gweithdy ffrâm bren i'w defnyddio fel gofod campfa ffitrwydd a chwilbedlo (i'w osod). Newid defnydd rhan o'r cae cyfagos i fod yn faes parcio pwrpasol ar gyfer y defnydd campfa a chwilbedlo arfaethedig yn y Gweithdy, Bwlch y Domen Isaf, Pant y Bwlch, Castellnewydd Emlyn, SA38 9JF**<br><br>Derbyniwyd cais ar gyfer y Pwyllgor i gynnal ymweliad safle er mwyn galluogi'r Pwyllgor i weld y safle yng ngoleuni'r pryderon a godwyd ynghylch effaith y datblygiad arfaethedig ar yr ardal a byddai hefyd yn gyfle i weld y busnesau presennol eraill yng nghyffiniau'r datblygiad.<br><br>**Y RHESWM:** Cael golwg ar safle'r datblygiad arfaethedig mewn perthynas â Pholisi TR2 - Lleoliad y Datblygiad. |

## 6. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 20 MEDI 2018

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 20 Medi 2018 yn gofnod cywir.**

_________________________ ___________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**